**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1082
Ein cyf/Our ref DET/03338/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

1 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 27 Tachwedd am y ddeiseb i ganiatáu aelodau corau i ganu mewn grwpiau yng Nghymru. O dan y rheoliadau coronafeirws newydd a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 9 Tachwedd, ni chaiff grwpiau o fwy na phymtheg o bobl ymgynnull ar unrhyw adeg ar gyfer gweithgareddau dan do.

Yn gynharach yr haf hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer dychwelyd i leoliadau a chyrchfannau diwylliant a threftadaeth. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, gofynnon ni i Gyngor Celfyddydau Cymru weithio gyda'r sectorau diwylliant i ddatblygu canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnal rihyrsals a pherfformiadau a chyfranogi. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau a dylai holl gyrff celf Cymru ystyried y canllawiau hynny'n ofalus. I'w gweld, ewch i https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-0. Dylech roi sylw arbennig i'r adran ar ganu.

Yn gywir,

D. Elis-Thomas.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.